
Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2025-26:** Memorandwm Esboniadol

Mehefin 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2025-26:** Memorandwm Esboniadol

Mehefin 2025



# Cynnwys

**Y cefndir** .......... **7**

**Memorandwm esboniadol** .......... **8**

**Diwygiadau i'r Gyllideb** .......... **9**

Cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr – Staff y Comisiwn .......... 9

Cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr - Cyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol .......... 9

**Cwmpas y gyllideb** .......... **10**


Croeso
i’r Senedd
Welcome
to the
Senedd

# Y cefndir

## Cafodd Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2025-26 ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2024, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £83.845 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- Gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys Cronfa Prosiectau (y gyllideb weithredol);
- Tair cyllideb wedi'u clustnodi ar gyfer gwaith rhaglen penodol;
- Gwariant sy'n ymwneud â gwaith paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd;
- Rhaglen waith Ffyrdd o Weithio; a
- Gwaith paratoi cyn yr etholiad.
- Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);
- Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;
- Y gyllideb ar gyfer costau clercio, gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- Y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau; ac
- Y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EF (Cost Cyllid Pensiwn).

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn ar gyfer 2025-26, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol.

# Memorandwm esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu cyllideb gyffredinol y Comisiwn £0.773 miliwn a chynyddu'r gofyniad arian parod net i gyfateb. Cynigir yr opsiynau a ganlyn:

- **Cynnydd o £0.475 miliwn i gyllideb y Comisiwn i adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr;**
- **Cynnydd yn y gyllideb ar gyfer cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig o £0.298 miliwn i adlewyrchu cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr;**

# Diwygiadau i'r Gyllideb

## Cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr – Staff y Comisiwn

Gosodwyd cyllideb 2025-26 ar 27 Medi 2024 ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2024. Ar 30 Hydref 2024, cyflwynodd Canghellor y Trysorlys Gyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU yn Senedd y DU. Y penderfyniadau treth mwyaf arwyddocaol a gyhoeddwyd gan y canghellor oedd newidiadau i'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a fydd yn dod i rym o 6 Ebrill 2025:

- Bydd cyfradd Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn codi 1.2 pwynt canran i 15%.
- Bydd y lefel y mae cyflogwyr yn dechrau talu Yswiriant Gwladol ar gyfer pob cyflogai yn gostwng o £9,100 i £5,000.

Y disgwyl yw y bydd cyllid ar gael gan Drysorlys EF i liniaru effaith y cynnydd. Nid yw'n bosibl i'r Comisiwn dalu'r costau ychwanegol hyn o fewn yr adnoddau presennol oherwydd graddfa cyflawni'r prosiect yn ystod 2025-26 i gyflawni'r newid i Senedd fwy o faint a chefnogi'r rhaglen Ffyrdd o Weithio barhaus.

Gosodwyd cyllideb y Comisiwn cyn cyflwyno cyllideb yr hydref ac felly ni chafodd effaith y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ei chynnwys. Mae'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yn golygu y bydd y Comisiwn yn talu trethi cyflogaeth ychwanegol o 6 Ebrill 2025 gwerth £0.475 miliwn.

## Cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr – Cyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol

Mae'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yn cynnwys cynnydd cyfatebol yn y swm sy'n ofynnol o £0.298 miliwn i dalu cost cyflogau Aelodau a'u Staff Cymorth.

### Effaith y Gyllideb

Effaith y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr fydd:

- **Cynnydd yng nghyllideb y Comisiwn o £0.475 miliwn**
- **Cynnydd yn y gyllideb o ran Penderfyniad y Bwrdd Taliadau o £0.298 miliwn**

# Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwygiedig 2025-26 Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Cyllideb 2025-26 ar gyfer Comisiwn y Senedd yn unol â'r gofynion**

| **Gofynion y Senedd** | **2025-26 £'000** |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd | £84,618 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd | £61 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill. | £80,348 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2: Gofyniad Arian Parod** | **£'000**<br>**2025-26**<br>**Cyllideb a osodwyd** | **£'000**<br>**2025-26**<br>**Cyllideb Ddiwygiedig** |
|---|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | 20,525 | 20,823 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | 105 | 106 |
| Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol | 602 | 609 |
| Diwygio'r Senedd | 4,674 | 4,686 |
| Ffyrdd o Weithio | 2,130 | 2,135 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | 52,501 | 52,951 |
| Gofyniad cyfalaf net | 2,308 | 2,308 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 1,000 | 1,000 |
| **Is-gyfanswm** | 83,845 | 84,618 |
| Addasiadau | | |
| Dibrisiant | (5,000) | **(5,000)** |
| Taliadau llog/Addasiadau cyfalaf | (600) | **(600)** |
| Taliadau rhent | 2,330 | **2,330** |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (1,000) | **(1,000)** |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | 79,575 | 80,348 |
| **Cynnydd mewn gofyniad arian parod** | | **773** |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales